Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol

Additional Learning Needs Policy

Dyddiad Cymeradwyo a Dyddiad Adolygu
Date Approved and Review Date

Gweler Cynllun Adolygu Polisiau
See Policy Review Timetable

POLISI ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Cyflwyniad

Sut cafodd y polisi hwn ei greu?

• Crëwyd y polisi hwn mewn partneriaeth â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Llywodraethwr ADY, staff cynrychioliadol, aelodau'r teulu a phlant / pobl ifanc. Mae'r polisi'n adlewyrchu'r canllawiau statudol a nodir yng Nghod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021.

Sut caiff y polisi hwn ei werthuso?

• Mae'r polisi hwn yn destun cylch blynyddol o fonitro, gwerthuso ac adolygu gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Cydlynydd ADY a'r Llywodraethwr ADY, ac fe'i cymeradwyir gan y Corff Llywodraethu Llawn.

• Mae'r Cydlynydd ADY, y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu yn gwerthuso effeithiolrwydd y polisi yn flynyddol yn erbyn yr egwyddorion a'r amcanion a nodir yn y polisi.

Sut all aelodau'r teulu gael mynediad at y polisi hwn?

• Gall aelodau'r teulu weld copi o'r polisi hwn ar wefan yr ysgol neu gellir gofyn am gopi caled o swyddfa'r ysgol. (Rhowch wybod i'r ysgol os oes angen i'r polisi fod ar gael i chi mewn fformat gwahanol).

Cyd-destun

Mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â'r gofyniad statudol a nodir yng Nghod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 ac fe'i hysgrifennwyd gan gyfeirio at y canllawiau a'r dogfennau cysylltiedig canlynol, **er enghraifft:**

- Deddf Cydraddoldeb 2010:
- Polisi Diogelu
- Polisi Derbyniadau

Datganiad Ethos / Sail Resymegol

Yn Ysgol Dyffryn Conwy, mae plant yn cael eu gwerthfawrogi fel unigolion ac ymdrinnir â'u hanghenion amrywiol yn sensitif ac yn effeithiol. Credwn fod pob plentyn yn cael cwricwlwm eang, cytbwys a gwahaniaethol gan sicrhau bod hunan-barch a hyder yn cael eu hatgyfnerthu a bod agwedd gadarnhaol yn cael ei datblygu.

Mae Ysgol Dyffryn Conwy wedi ymrwymo i gynnwys disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn llwyddiannus. Yn ein hysgol ni, mae pob athro yn athro i bob disgybl, gan gynnwys y rhai ag ADY.

Yn Ysgol Dyffryn Conwy mae pob plentyn yn gyfartal, yn werthfawr ac yn unigryw. Ein nod yw darparu amgylchedd lle mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu ffynnu. Byddwn yn ymateb i unigolion mewn ffyrdd sy'n ystyried eu profiadau bywyd amrywiol a'u hanghenion penodol.

Mae Ysgol Dyffryn Conwy wedi ymrwymo i ddarparu addysg sy'n galluogi pob disgybl i wneud cynnydd fel ei fod yn cyflawni ei orau, dod yn unigolion hyderus sy'n byw bywydau boddhaus ac yn croesi'r bont yn llwyddiannus i fod yn oedolion.

Nodau ac Amcanion

Amcanion

- Datblygu darpariaeth ddysgu ychwanegol effeithiol wedi'i thargedu ar gyfer yr ysgol gyfan
- Sicrhau proses glir ar gyfer nodi, asesu, cynllunio, darparu, adolygu a gwerthuso ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag ADY, gyda'u teulu fel rhan ganolog
- Darparu cwricwlwm sy'n eang ac yn gytbwys i ennyn diddordeb pob plentyn ac unigolyn ifanc ar bob lefel ac i hyrwyddo diwylliant dysgu cynhwysol
- Sicrhau cydraddoldeb darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY
- Galluogi i blant a phobl ifanc ag ADY gyflawni eu potensial
- Sicrhau bod y teulu'n chwarae rhan lawn yn y broses o wneud penderfyniadau
- Ystyried barn, dymuniadau a theimladau plentyn neu unigolyn ifanc
- Darparu cyngor a chefnogaeth i'r holl staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag ADY

Diffiniad o ADY
Yn ein hysgol ni, rydym yn defnyddio diffiniad Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021. Mae hwn yn nodi:

Caiff ystyr "Anghenion Dysgu Ychwanegol" ("ADY") ei nodi yn adran 2 o'r Ddeddf, sef:

(1) Mae gan unigolyn anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (p'un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol neu fel arall) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

(2) Mae plentyn o oedran ysgol gorfodol neu unigolyn dros yr oedran hwnnw ag anhawster dysgu os ydy ef neu hi-

(a) yn cael llawer mwy o anhawster yn dysgu na'r mwyafrif o'r unigolion eraill o'r un oed, neu

(b) gydag anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 (c. 15) sy'n atal neu'n rhwystro ef neu hi rhag defnyddio cyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant o'r math a ddarperir yn gyffredinol at eraill o'r un oed mewn ysgolion a gynhelir prif ffrwd neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.

(3) Nid oes gan unigolyn anhawster neu anabledd dysgu dim ond oherwydd bod yr iaith (neu ffurf yr iaith) y mae ef neu hi yn cael ei dysgu ynddi yn wahanol i'r iaith (neu ffurf yr iaith) a ddefnyddir neu a ddefnyddiwyd gartref.

Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynydd ADY)

Er bod yr holl athrawon a staff addysg yn addysgwyr plant a phobl ifanc ag ADY, y Cydlynydd ADY yw'r unigolyn sy'n sicrhau bod anghenion pob dysgwr ag ADY yn y lleoliad addysg yn cael eu diwallu ar lefel strategol.

Mae gan y Cydlynydd ADY gyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod gan bob dysgwr sydd ag ADY ar draws y lleoliad addysg CDU. Mae Cydlynwyr ADY yn nodi ADY plentyn neu unigolyn ifanc ac yn sicrhau bod Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDY) briodol ar waith i ddiwallu'r anghenion hynny.

Enw'r Cydlynydd ADY: Rhian Evans
Manylion Cyswllt: re@dyffrynconwy.conwy.sch.uk

Mae darpariaeth ar gyfer plant ag ADY yn fater i'r ysgol gyfan.

Mae pob athro yn athro i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Felly, mae addysgu'r holl blant a phobl ifanc yn gyfrifoldeb ar yr ysgol gyfan.

Yn Ysgol Dyffryn Conwy rydym yn mabwysiadu dull "addysgu o ansawdd uchel". Addysgu o ansawdd uchel, wedi'i wahaniaethu ar gyfer disgyblion unigol, yw'r cam cyntaf wrth ymateb i blant a phobl ifanc sydd ag ADY neu a allai fod ag ADY

Mae nodweddion allweddol addysgu o ansawdd uchel fel a ganlyn:

- Cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol sy'n cynnwys plant a phobl ifanc ym mhob agwedd
- Addysgu gwahaniaethol o ansawdd uchel
- Disgwyliadau uchel ar gyfer pob plentyn ac unigolyn ifanc
- Defnydd priodol o gwestiynu, modelu ac egluro gan athrawon

I gael rhagor o wybodaeth am "addysgu o ansawdd uchel", edrychwch ar Becyn Cymorth Conwy ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Asesu, Cynllunio a Gwneud

Lle penderfynir rhoi darpariaeth i blentyn neu unigolyn ifanc, byddwn yn siarad â'r teulu. Byddwn yn cytuno ar ba addasiadau, ymyriadau a chymorth a gaiff eu rhoi ar waith, yn ogystal â'r effaith ddisgwyliedig ar gynnydd, ynghyd â dyddiad clir ar gyfer adolygu. Yr athrawes ddosbarth fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am weithio gyda'r plentyn o ddydd i ddydd.

Adolygiad

Bydd effeithiolrwydd y gefnogaeth a'r ymyriadau a'u heffaith ar gynnydd y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn cael ei adolygu ar y dyddiad y cytunwyd arno. Bydd yr athro dosbarth neu'r athro pwnc, sy'n gweithio gyda'r Cydlynydd ADY, yn adolygu'r gefnogaeth ar ôl gweld cynnydd y plentyn neu'r unigolyn ifanc. Os nad yw plentyn neu unigolyn ifanc yn gwneud y cynnydd disgwyliedig dros gyfnod parhaus o amser, bydd yr ysgol yn ceisio arbenigedd arbenigol. Bydd hyn yn llywio'r ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol. Mae'r ysgol yn cysylltu â'r gwasanaethau addysg, iechyd neu deuluol perthnasol, er enghraifft; Gwasanaeth Cynhwysiant a Seicoleg Addysgol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc a'r gwasanaeth niwroddatblygiadol, Gwasanaeth Lleferydd ac Iaith.

Cynllun Datblygu Unigol (CDU)
Bydd gan blentyn neu unigolyn ifanc y nodwyd bod ganddo ADY gynllun statudol o'r enw Cynllun Datblygu Unigol wedi'i baratoi. Dogfen sy'n cynnwys disgrifiad o ADY unigolyn yw Cynllun Datblygu Unigol (CDU), yn ogystal â disgrifiad o'r CDY y mae anhawster neu anabledd yr unigolyn yn galw amdano.

Adolygu anghenion plant neu bobl ifanc
Cynhelir cyfarfodydd adolygu ffurfiol y CDU yn flynyddol o leiaf, lle bydd teuluoedd a'r plentyn neu'r unigolyn ifanc yn rhan o'r broses adolygu cynnydd a gosod canlyniadau newydd. Mae athrawon dosbarth yn gyfrifol am gasglu tystiolaeth mewn perthynas â chanlyniadau a darpariaeth a ddisgrifir yn CDU y plentyn neu'r unigolyn ifanc.

Partneriaeth gyda Theuluoedd

Mae'r plentyn neu'r unigolyn ifanc wrth wraidd popeth a wnawn a byddwn yn gweithio gyda theuluoedd i gyflawni'r canlyniadau gorau i'r plentyn neu'r unigolyn ifanc.

Mae ein hysgol wedi ymrwymo i sefydlu a chynnal perthynas waith dda gyda theuluoedd ein holl blant a phobl ifanc ac yn cydnabod pwysigrwydd partneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol. Mae rhieni / gofalwyr yn cael gwybod am gynnydd eu plentyn neu unigolyn ifanc. Fe'u hanogir i chwarae rhan weithredol yn eu haddysg a chefnogi'r camau gweithredu a'r canlyniadau a amlinellir yn y CDU. Anogir teuluoedd i gymryd rhan lawn yn y broses adolygu. Anogir y teulu a'r plentyn neu'r unigolyn ifanc i roi adborth, rhannu safbwyntiau a chodi unrhyw bryderon cyn cyfarfod. Yn ogystal â hyn, bydd cyfle hefyd i drafod a gwirio dealltwriaeth o'r holl wybodaeth a chyngor a gasglwyd ar gyfer yr adolygiad.

Gweithdrefn Gwyno

I ddechrau, gwneir ymgais i ddatrys cwyn am ddarpariaeth ADY ar lefel ysgol. Dylai rhieni / gofalwyr sy'n anfodlon gyda darpariaeth yr ysgol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol adrodd yn ôl i'r athro dosbarth i ddechrau - os ydynt yn parhau i fod yn anfodlon, dylent wneud apwyntiad i weld y Cydlynydd ADY / Pennaeth. Os bydd hyn yn methu â datrys y broblem, gellir adrodd am y mater i lywodraethwr yr ysgol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, y gellir cysylltu ag o/hi drwy swyddfa'r ysgol. Os yw rhieni / gofalwyr yn dal i fod yn anhapus ar ôl defnyddio gweithdrefn gwyno'r ysgol, dylai rhieni / gofalwyr gysylltu â'r awdurdod lleol am gyngor, cymorth a gwybodaeth. Bydd yr ysgol yn hysbysu rhieni / gofalwyr o wasanaeth datrys anghytundebau annibynnol a gomisiynwyd gan yr awdurdod lleol.

Cyfranogiad y Plentyn neu'r Unigolyn Ifanc

Mae safbwyntiau, dymuniadau a theimladau pob plentyn ac unigolyn ifanc yn cael eu gwerthfawrogi. Caiff plant a phobl ifanc ag ADY eu cefnogi i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau ac i allu mynegi unrhyw bryderon. Mae cyfraniad y plentyn neu'r unigolyn ifanc i'r broses yn bwysig er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu nodi'n gywir. P'un a oes gan blentyn y gallu neu beidio, gallant wneud cyfraniadau sylweddol o hyd pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud am eu ADY.

Cefnogi plant gyda chyflwr meddygol

Bydd pob achos yn cael ei drafod yn unigol i sicrhau bod gofal priodol a phersonol ar waith. Lle mae gan blentyn neu unigolyn ifanc ADY hefyd, caiff eu darpariaeth ei chynllunio a'i chyflwyno mewn ffordd gydlynol gyda'u cynllun gofal iechyd.

Datblygu Staff

Er mwyn cynnal a datblygu ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth i ymateb i gryfderau ac anghenion yr holl blant a phobl ifanc, anogir yr holl staff i ymgymryd â hyfforddiant a datblygiad. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn adolygu anghenion hyfforddi staff drwy reoli perfformiad i gynllunio DPP priodol mewn perthynas ag ADY. Mae'r Cydlynydd ADY yn sicrhau bod staff yn cael gwybod am ddatblygiadau lleol a chenedlaethol mewn perthynas ag ADY a Chynhwysiant. Lle y bo'n briodol, defnyddir arbenigwyr i ddarparu'r hyfforddiant.

Monitro a Gwerthuso ADY

Mae darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY yn fater i'r ysgol gyfan. Mae gan Fwrdd y Llywodraethwyr, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth, gyfrifoldeb cyfreithiol am benderfynu ar y polisi a'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY.

Trefniadau Derbyn

Cyfeiriwch at y wybodaeth a gynhwysir ym Mholisi Derbyn yr Ysgol y gellir ei chyrchu ar wefan yr ysgol. Mae'r trefniadau derbyn ar gyfer pob plentyn ac unigolyn ifanc yn unol â deddfwriaeth genedlaethol, gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc ag unrhyw lefel o ADY.

Trefniadau Pontio

Caiff y broses bontio ei chynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau trosglwyddiad llwyddiannus o fewn yr ysgol ac o leoliad/ysgol i leoliad/ysgol arall. Bydd plant a phobl ifanc ochr yn ochr â rhieni / gofalwyr yn cymryd rhan lawn yn y gwaith cynllunio ar gyfer trosglwyddo i'r lleoliad newydd. Bydd gwybodaeth allweddol am ddarpariaeth ADY yn cael ei rhannu gyda'r ysgol / lleoliad nesaf drwy'r broses adolygu.

Plant mewn Gofal / Plant sy'n Derbyn Gofal

Mae'r Cydlynydd ADY hefyd yn athro dynodedig Plant mewn Gofal acyn gofalu amdanynt er mwyn sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal sydd hefyd ag ADY.

Rôl a Chyfrifoldebau

Bydd Llywodraethwyr yn sicrhau'r canlynol:

- y caiff y ddarpariaeth angenrheidiol ei gwneud ar gyfer unrhyw blentyn neu unigolyn ifanc ag ADY
- bod yr holl staff yn ymwybodol o'r angen i nodi a darparu ADY plentyn neu unigolyn ifanc
- bod plant neu bobl ifanc ag ADY yn ymuno â gweithgareddau'r ysgol ochr yn ochr â'u cyfoedion, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol ac yn gydnaws â'u hanghenion
- bod rhieni / gofalwyr yn rhan o unrhyw benderfyniadau a wneir o ran darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer y plentyn / unigolyn ifanc
- cânt eu hysbysu'n llawn am faterion ADY, fel y gallant chwarae rhan bwysig yn hunan-adolygiad yr ysgol
- cyfarfod bob tymor gyda'r Cydlynydd ADY
- caiff y Polisi ADY ei fonitro, gwerthuso ac adolygu gan y Llywodraethwr ADY bob blwyddyn, a'i gymeradwyo gan y Corff Llywodraethu Llawn.

Mae'r Pennaeth yn gyfrifol am y canlynol:

- rheoli pob agwedd ar waith yr ysgol, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY
- hysbysu'r corff llywodraethu am faterion ADY
- gweithio'n agos gyda'r Cydlynydd ADY

Mae'r Cydlynydd ADY yn gyfrifol am y canlynol:

- hyrwyddo cynhwysiant plentyn neu unigolyn ifanc yn yr ysgol a mynediad at gwricwlwm, cyfleusterau a gweithgareddau allgyrsiol yr ysgol
- cynghori athrawon yn yr ysgol am ddulliau addysgu gwahaniaethol sy'n briodol i blant a phobl ifanc ag ADY
- gweithio gyda'r pennaeth a llywodraethwyr ysgol i sicrhau bod yr ysgol yn cyflawni ei chyfrifoldebau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) o ran addasiadau rhesymol a threfniadau mynediad
- cydlynu adnoddau ADY yn strategol, megis lleoli a chefnogi staff a gweithio gyda chydweithwyr ar yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth i gynllunio a phenderfynu ar yr adnoddau priodol sydd eu hangen i gefnogi staff yn y lleoliad
- cyfrannu at hyfforddiant mewn swydd ar gyfer athrawon yn yr ysgol
- goruchwylio a threfnu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr cefnogi dysgu sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag ADY
- monitro effeithiolrwydd unrhyw CDU
- sicrhau y caiff CDUau eu datblygu a'u hadolygu
- cadw cofnodion o benderfyniadau am ADY a CDUau
- cysylltu â gwasanaethau arbenigol pan fydd cytundeb i ddarparu gwasanaethau o'r fath
- gweithredu fel y pwynt allweddol o gyswllt â gwasanaethau cynhwysiant a chymorth yr awdurdod lleol perthnasol
- cysylltu'n agos â rhieni plant a phobl ifanc ag ADY
- goruchwylio trosglwyddiad priodol gwybodaeth rhwng lleoliadau addysg am ADY a CDY y dysgwr

Mae athrawon dosbarth yn gyfrifol am y canlynol:

- y broses o gefnogi pob dysgwr ag ADY o ddydd i ddydd
- darparu addysg wahaniaethol o ansawdd uchel i bob plentyn ac unigolyn ifanc
- gosod disgwyliadau uchel sy'n ysbrydoli, cymell a herio plant a phobl ifanc
- asesu anghenion plant a phobl ifanc a chynllunio addasiadau, ymyriadau a darpariaeth resymol i gyd-fynd â'r canlyniadau a nodwyd ar eu cyfer
- adolygu effaith / effeithiolrwydd yr addasiadau, ymyriadau a darpariaeth resymol sydd ar waith yn rheolaidd
- gwneud eu hunain yn ymwybodol o weithdrefnau'r ysgol ar gyfer adnabod, monitro a chefnogi plant a phobl ifanc ag ADY
- rheoli ymddygiad yn effeithiol er mwyn sicrhau amgylchedd dysgu da a diogel

Dyddiad:	Adolygiad Awdurdod 27.03.2023
Fersiwn:	
Adolygiad erbyn:	
Llywodraethwr ADY:	Huw Roberts / Elliw Roberts
Staff Dynodedig â chyfrifoldeb Diogelu penodol:	Roger Beech
Aelod o staff sy'n gyfrifol am Blant sy'n Derbyn Gofal:	Rhian Evans

Atodiad 1:

Adnoddau Dynol a'u cyfrifoldebau

Swyddog Gweinyddol ADY llawn amser - Mrs Lynne Roberts
Athrawes Arbenigol Dyslecsia - Miss Lucy Parry

❖

Cymhorthyddion Dysgu - Mae'r ysgol yn bresennol yn cyflogi 3 Cymhorthydd Dysgu ar cwricwlwm prif-lîf ar Uned Anawsterau Dysgu Cymedrol:

Miss Ffion Davies	-	Uned ADC /Prif –lîf / Un i un
Mrs Catherine Caddick	-	Uned ADC /Prif –lîf / Un i un
Miss Bethan Evans	-	Uned ADC /Prif –lîf

Anogwyr Dysgu - Mae'r ysgol yn cyflogi Anogwr Dysgu:

Tracy Stone

Cymhorthyddion Dysgu Clwstwr ADY - Mae'r ysgol yn cyflogi Cymhorthyddion Cefnogi Dysgu ADY yn y clwstwr sydd yn gweithio gyda disgyblion ag anawsterau addysgol, penodol, corfforol, synhwyrol, ymddygiadol.

Swyddogaeth Cymorthyddion Dysgu

Mae Cynorthwywyr Cefnogi Dysgu yn gyfrifol am**:**

- gefnogi unigolion neu grwpiau bach o ddisgyblion
- gefnogi rhaglenni ymyrraeth Llythrennedd a Rhifedd
- Cynllun datblygu sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu - Talkabout
- gyfrannu i weithrediad y PUT
- gyfrannu i ddatblygu adnoddau i ddisgyblion ADY
- fynychu cyfarfodydd ac Adolygiadau yn ôl cyfarwyddyd y Cyd-lynydd ADY
- roi adroddiad ar lafar neu bapur o gynnydd disgyblion maent yn gweithio gyda hwy.

Wrth weithio gyda Chymorthyddion Dysgu mae athrawon dosbarth yn gyfrifol am:

- esbonio gwaith dosbarth a disgwyliadau
- amserlen a cynllun y tymor, er mwyn gallu addasu adnoddau y cwricwlwm
- reolaeth a trefniadaeth y dosbarth.
- osod tasgau gwaith cartref gwahaniaethol i ddisgyblion ADY

Datblygu / Hyfforddiant Staff

Mae staff yr ysgol yn derbyn gwybodaeth ddiweddaraf drwy:

- gyfarfodydd Ysgol Gyfan
- gyfarfodydd Cyswllt Adrannol
- gwybodaeth ar system electronaidd yr ysgol

Hyfforddiant mewn Swydd

- bydd y cydlynydd yn adnabod anghenion hyfforddi ac yn bwydo i mewn i'r Cynllun Datblygu
- gall y cydlynydd wneud cais am gymorth hyfforddi neu gynhaliaeth oddiwrth Adran Addysg Conwy

Atodiad 2

Cynllun Ymyrraeth Llythrennedd a Rhifedd (Grant Effeithiolrwydd Ysgolion)

Yn dilyn dadansoddiad manwl o ganfyddiadau profion darllen, rhifedd a/neu sillafu, mae'r ysgol yn adnabod disgyblion sydd angen eu targedu fel rhan o'n rhaglenni ymyrraeth llythrennedd a rhifedd.

Rhedwn y rhaglenni ymyrraeth canlynol:

Llythrennedd: Dyfal Donc, darllen grwp, buddies darllen, Rhaglen NESSY, ymyrraeth dyslecsia mewn partneriaeth efo athrawes arbenigol, cynllun menter mathemateg (buddies 6ed dosbarth rhifedd).

Yn ychwanegol rydym wedi adnabod amser penodol yn amserlenni ein holl staff cefnogi i gefnogi sgiliau llythrennedd i ddisgyblion a SS o dan 90 yn y Saesneg yn ystod y cyfnodau boreuol.

Mae disgyblion y 6ed dosbarth hefyd yn cefnogi disgyblion targed fel rhan o'u oriau ychwanegol BAC unai efo cynllun buddies darllen 1-1 (disgyblion a SS o dan 90 mewn darllen yn y Gymraeg) neu cynllun menter maths (ymyrraeth rhifedd) 1-1 (i ddisgyblion sydd a SS rhifedd rhwng 85-95 efo blaenoriaeth i flwyddyn 7).

Adolygir cynnydd y disgyblion hyn yn gyson gan wneud adolygiad ffurfiol wedi cyfnod penodol o ymyrraeth (fel arfer 10 wythnos / tymor).